



Her Hidlo Dŵr ‘Mae mawn yn anhygoel’

Mae'r daflen waith hon yn cyd-fynd â'n Cynllun Gweithgaredd - Her Hidlo Dŵr Mae Mawn yn Anhygoel.

Bydd y gweithgaredd hwn yn ceisio efelychu mawndir ucheldirol syml y mae dŵr yn llifo drwyddo, gan ddangos y priodweddau hidlo gwych sydd gan fawn o gymharu â mathau eraill o bridd. **Peidiwch â defnyddio compost â mawn ynddo.** Gofynnwch i'ch cyflenwr neu eich canolfan arddio leol am gompost heb fawn ynddo. Efallai y bydd yn rhaid ichi aros rywfaint yn hirach amdano. Gwiriwch y cynnwys gan wneud yn siŵr nad oes mawn ynddo o gwbl. Mae mawn yn adnodd na ellir ei adnewyddu.

Rhagdybiaeth

Cyn i chi gwblhau eich ymchwiliad, gan ddefnyddio'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu, ysgrifennwch eich rhagdybiaeth (rhagfynegiad neu ddyfaliad).


Pa bridd ydych chi'n meddwl fydd yn draenio gyflymaf a pham?

Pa bridd ydych chi'n meddwl fydd yn cynhyrchu'r dŵr glanaf ar ôl ei hidlo? Esboniwch eich ateb.

Amser i ddarganfod a oedd eich rhagdybiaeth yn gywir neu'n anghywir – cwblhewch eich ymchwiliad gan nodi eich canfyddiadau yn y tabl isod.


Creu eich hidlydd dŵr

1. Gan weithio mewn grwpiau o 3-4, casglwch ddeunyddiau i wneud sampl o ddŵr budr – cymysgwch bridd, mwd, dail marw a dŵr mewn potel neu gynhwysydd clir mawr.
2. Yna, rhowch eich dŵr budr i'r naill ochr, torrwch eich potel blastig yn ei hanner. Bydd hanner uchaf y botel blastig (tynnwch y caead) yn cael ei osod â'i ben i lawr y tu mewn i hanner gwaelod y botel. Y rhan siâp twmffat fydd yr hidlydd, a bydd hanner gwaelod y botel yn casglu'r dŵr a gaiff ei hidlo.
3. Gyda hanner uchaf y botel wedi'i osod â'i ben i lawr, rhowch haen o wllân cotwm yn y rhan honno. Rhaid i'r gwllân cotwm fod yn ddigon trwchus i atal yr haen nesaf o raeon rhag syrthio allan o wddf y botel – trwch o oddeutu 2-3cm.






4. Yna, yn ofalus, tywalltwch 2-3cm o raean i mewn, cyn ychwanegu haen gyfartal o gompost heb fawn ynddo. Peidiwch â chywasgu'r haenau, oherwydd mae yna berygl y gallai popeth syrthio allan!



5. Yn olaf, ychwanegwch haen arall o raean, 2-3cm o drwch.



6. Yna, mesurwch 200ml o ddŵr budr sydd wedi'i baratoi yn barod mewn bicer neu jwg mesur.



7. Wrth gychwyn y stopwatsh, tywalltwch y 'dŵr budr' yn araf i mewn i'r hidlydd a gwyliwch yn ofalus wrth iddo fynd trwy bob haen. A yw'r dŵr yn ymgasglu yng ngwaelod y twmffat? A yw'n llifo'n gyflym ynteu'n araf trwy'r pridd? Wrth i'r dŵr basio trwy'r gwahanol haenau, dylai'r dŵr budr gael ei hidlo a dylai dŵr glân gronni yng ngwaelod y botel blastig.




8. Cofnodwch eich canfyddiadau a'ch arsylwadau yn y tabl isod.





9. Gan ddefnyddio ein ‘Cerdyn adnoddau - Mesur afloywder dŵr’ mesurwch afloywder y dŵr sydd wedi’i hidlo a chofnodwch eich canfyddiadau yn y tabl isod.



Math o bridd neu rif y sampl	Amser a gymerodd i hidlo	Arsylwadau - A yw'r dŵr yn rhedeg yn gyflym neu'n araf drwy'r pridd yma?	Cyfaint y dŵr wedi'i hidlo a gasglwyd	Afloywder y dŵr wedi'i hidlo
E.e. clai	4.23 o funudau	Diferu trwodd yn araf iawn	103 ml	4 logo CNC yn weladwy

Llongyfarchiadau - rydych chi newydd hidlo dŵr budr!

Sylwer - Arddangos egwyddor yn unig yw diben y gweithgaredd hwn - ni ddylai neb yfed y dŵr sydd wedi'i hidlo.



Cwestiynau

1. Beth oedd yr amser hidlo cyfartalog? (adiwch yr amser hidlo ar gyfer pob sampl pridd gyda'i gilydd a rhannwch gyda nifer y samplau a brofwyd = amser hidlo cyfartalog)

2. Pa fath o bridd neu sampl a hidlodd y mwyaf o ddŵr? _____

Pa fath o bridd a hidlodd y lleiaf o ddŵr? _____

Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym? _____

3. Pa sampl o ddŵr wedi'i hidlo oedd â'r lefel afloywder gorau (y dŵr mwyaf clir)?

Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym? _____

Ailymweld â'r rhagdybiaeth

A oedd eich rhagdybiaeth/rhagfynegiad yn gywir neu'n anghywir? Os oedd eich rhagdybiaeth yn anghywir - pam?

Petaech chi'n gwneud yr ymchwiliad hwn eto beth fydddech chi'n ei wneud yn wahanol i wella eich canlyniadau?

Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk os gwelwch yn dda, neu ewch i <https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu>

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

0300 065 3000